

Apiau a rhaglenni defnyddiol

Yn ogystal â'r meddalwedd a'r offer sydd ar gael trwy DSA, mae **llaws o apiau a rhaglenni** ar gael a all eich **helpu gyda'ch astudiaethau**.



Dyma rai wedi eu rhannu'n categorïau:

Apiau Trefnu

Microsoft Outlook: Pan fyddwch wedi ei gysylltu â'ch cyfrif ebost prifysgol, bydd Outlook yn caniatáu i chi fynd at eich **holl ebyst prifysgol** a'ch **calendr Outlook**. Bydd eich amserlen arni, ac unrhyw apwyntiadau sydd wedi cael eu trefnu gennych.

Byddwch hefyd yn cael **hysbysiadau gan Blackboard** yn eich mewnlwch yn ogystal â digonedd o wybodaeth am eich cwrs, y brifysgol ac unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio gan Undeb y Myfyrwyr. Ar gael ar siopau apiau iOS ac Android.

My Study Life: Os ydych yn cael **trafferth** i gadw eich **amserlenni, dyddiadau** aseiniadau, amserlen arholiadau a rhestrau pethau i'w gwneud gyda'i gilydd ac mewn trefn My Study Life yw'r gwasanaeth i chi. Wedi'i gynllunio gan fyfyrwr ar gyfer myfyrwyr, mae'n wasanaeth slic, hawdd ei ddefnyddio:

<https://www.mystudylife.com/>

Apiau Cynhyrchedd



One Drive: Lle cadw data yn y cwmwl gan Microsoft, y cyfan sydd ei angen arnoch yw cyfrif Outlook personol.



Google Drive: Lle cadw data yn y cwmwl gan Google, y cyfan sydd ei angen arnoch yw cyfrif Google.

Google Docs: Prosesydd geiriau am ddim yn y cwmwl gan Google. Mae rhaglenni eraill hefyd sy'n darparu taenlenni, cyflwyniadau ac yn creu ffurflenni, ymysg pethau eraill. Mae pob rhaglen yn cysylltu â'ch Google Drive er mwyn gallu rhannu pethau'n hawdd a chadw ffeiliau o bell.

Diigo: Arf rheoli gwybodaeth ar-lein gyda sawl platform. Mae'n caniatáu i chi anodi tudalennau gwe, cysylltu nodiadau, rhannu a chadw tudalennau gwe, dyfyniadau, lluniau a delweddau a dod â nhw at ei gilydd er mwyn gallu mynd atynt o sawl dyfais gwahanol. Gallwch ddefnyddio rhan o'r rhaglen am ddim ond os ydych am ddatgloi mwy o swyddogaethau rhaid i chi dalu.



OneNote: App Microsoft am ddim sy'n galluogi defnyddwyr i **rannu, cadw ac ymateb** i wybodaeth. Dyma gyflwyniad i OneNote:

<https://www.youtube.com/watch?v=h07qZLLQc4I>

Mwy o Apiau Cynhyrchedd



Office Lens: App Microsoft am ddim sy'n **troi camera eich ffôn clyfar yn sganiwr.** Gall ddefnyddio dull adnabod symbolau optegol ar destun print, mae'n trosi delweddau'n Pdf, dogfennau Word a chyflwyniadau PowerPoint. Mae ffeiliau'n cael eu cadw'n awtomatig ar OneNote Microsoft.



Evernote: Gwasanaeth tebyg i OneNote, gyda rhai nodweddion gwahanol. Dyma gyflwyniad i Evernote:

<https://www.youtube.com/watch?v=UoDcluGr3LM>

Grammarly: Rhaglen ar-lein sy'n **gwirio gramadeg, atalnodi a sillafu yw Grammarly.** Mae ganddi estyniad porwr Google Chrome, sy'n gwirio eich gramadeg, eich sillafu a'ch atalnodi wrth i chi weithio ar-lein. <https://www.grammarly.com>

StayFocusd: **Gwastraffu amser ar y rhyngwrwyd** pan fydd gennych bethau i'w gwneud? Mae Stayfocusd yn estyniad gwe Google Chrome sy'n caniatáu i chi atal neu gyfyngu ar fynediad i wefannau penodol. Gallwch ei gael trwy'r Google App Store o borwr Google Chrome.



GoConqr: Rhaglen ddysgu rad ac am ddim sy'n eich galluogi i **greu** Holiaduron Aml-ddewis, **Cardiau Fflach, Sioeau Sleidiau** ac i gadw **nodiau**.

Cysylltiadau Cyflym

Dragon Naturally Speaking	https://www.youtube.com/watch?v=ImlKOA1MhII
Evernote	https://www.youtube.com/watch?v=UoDcluGr3LM
Grammarly	https://www.grammarly.com
NVDA	http://www.nvaccess.org/
OneNote	https://www.youtube.com/watch?v=h07qZLLQc4I